YMCHWIL, DOGFENNU

# Effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes ar ymddygiadau prynu alcohol: crynodeb

Allbynnau o astudiaeth ymchwil dulliau cymysg a gynhaliwyd i archwilio effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes ar ymddygiadau prynu alcohol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Nodau a methodoleg yr ymchwil** (https://www.llyw.cymru#157848)

**Amcanion yr ymchwil** (https://www.llyw.cymru#157850)

**Methodoleg yr ymchwil** (https://www.llyw.cymru#157852)

**Y prif ganfyddiadau** (https://www.llyw.cymru#157854)

**Argymhellion ar gyfer ymchwil bellach** (https://www.llyw.cymru#157865)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru#157867)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Nodau a methodoleg yr ymchwil

Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru i Gymru ddod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050, a hynny'n golygu bod unrhyw ddeunyddiau a waredir yn cael eu hailgylchu a'u hailgylchredeg o fewn economi Cymru. Nodwyd bod Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) yn ffordd bwysig i gyflawni'r uchelgais hwn. Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes) wedi'i fwriadu'n benodol i gynyddu'r casglu ac ailgylchu ar gynwysyddion diodydd, gan helpu yn y pen draw i leihau maint y sbwriela o'r math hwn o ddeunydd pacio, sy'n cael ei daflu'n aml fel sbwriel. Er ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno CDE fel modd i gyrraedd ei tharged ar gyfer Cymru ddiwastraff, mae angen iddi roi ystyriaeth hefyd wrth wneud hynny i'r effaith ehangach bosibl.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen deall a oes risg y byddai'r newidiadau mewn prisiau yn y man prynu wrth gyflwyno CDE yn gallu gwrthweithio yn erbyn nodau ei deddfwriaeth bresennol ar Isafbris am Alcohol, sy'n pennu Isafbris Uned ar gyfer prynu alcohol. Y risg ddichonol a nodwyd oedd y byddai'r newid yn y pris yn y man prynu o ganlyniad i gyflwyno CDE, o'i gymhwyso fesul cynhwysydd diod, yn gallu peri bod cynhyrchion uchel eu cryfder mewn pecyn sengl yn ymddangos yn fwy deniadol o safbwynt y pris manwerthu nag aml-becynnau o gynhyrchion is o ran alcohol ar adeg prynu.

# Amcanion yr ymchwil

Nod craidd yr ymchwil oedd edrych ar yr effaith bosibl o'r Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) ar ymddygiadau prynu alcohol yng Nghymru a sut byddai cyflwyno CDE yn gallu effeithio ar nodau'r polisi Isafbris am Alcohol.

Y ddau grŵp a nodwyd fel y rhai a allai wynebu'r risg fwyaf o newid ymddygiadau prynu alcohol oedd yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir, a'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

rheini sydd ar incwm is. Felly, roedd angen penodol i ddeall yr ymddygiadau dichonol ymysg y grwpiau hyn.

## Methodoleg yr ymchwil

Defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau (ymchwil ansoddol a meintiol), ar ôl cwblhau adolygiad llenyddiaeth. Pwrpas yr ymchwil ansoddol oedd deall sut, a pham, y gwneir dewisiadau mewn cysylltiad â phrynu alcohol, a’r ffordd y mae hyn yn ymwneud â chyflwyno CDE. Yn ogystal â hyn, bydd yr ymchwil ansoddol yn rhoi gwell dealltwriaeth o’r rhesymau y byddai rhai mathau o ymddygiad yn gallu codi wrth gyflwyno CDE, er mwyn rhag-weld yn well sut bydd ymddygiadau penodol yn debygol o ddatblygu wrth roi’r polisi ar waith. Pwrpas yr ymchwil feintiol oedd rhoi prawf ar ganfyddiadau o’r ymchwil ansoddol gyda sampl fwy a dynnwyd o boblogaeth Cymru er mwyn darparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Ar gyfer yr ymchwil ansoddol, cynhaliwyd 22 o gyfweliadau manwl, a’r sampl wedi’i strwythuro ar sail lefelau yfed alcohol (9 yfwr cymedrol, 7 yfwr mewn perygl, a 6 yfwr a niweidir) a chyfoeth (incwm uchel, canolig ac isel).

Cynhaliwyd yr ymchwil feintiol drwy arolwg ar-lein, a’r sampl yn cynnwys sampl graidd, a chyfres o ychwanegiadau i’n cynorthwyo i ddadansoddi ar sail is-grwpiau allweddol (e.e., lefel yfed ac incwm). Mae crynodeb isod o feintiau’r sylfeini:

### Tabl 1: Cyfansoddiad sampl astudio

| Math o sampl | Proffil | Nifer |
|---|---|---|

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

| | | |
|---|---|---|
| Sample Graidd | Sampl gynrychiadol o yfwyr alcohol yn byw yng Nghymru (18+ oed) | 1011 |
| Ychwanegiad 1 | Yfwyr mewn perygl (yn cynnwys yr ychwanegiad) | 313 |
| Ychwanegiad 2 | Yfwyr a niweidir (yn cynnwys yr ychwanegiad) | 200 |
| Ychwanegiad 3 | Yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir ar incwm is (yn cynnwys yr ychwanegiad) | 208 |
| Ychwanegiad 4 | Yfwyr ar incwm is (yn cynnwys yr ychwanegiad) | 559 |

# Y prif ganfyddiadau

## Adolygiad llenyddiaeth

Roedd astudiaethau'n dangos, os yw CDE wedi'i gynllunio a'i weithredu'n effeithiol, na ddylai gael effaith ar ymddygiad defnyddwyr gan fod yr ernes yn ad-daladwy. Os yw defnyddwyr yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y cynllun a'i bod yn hawdd iddynt hawlio'r ernes yn ôl, cafwyd ei bod yn llai tebygol y bydd canlyniadau anfwriadol yn codi wrth weithredu CDE. Yn Croatia ac Estonia, cafwyd newid i brynu mathau mwy o gynhwysydd ar gyfer cwrw, ond ni fu cynnydd yng ngwerthiant cyffredinol cwrw mewn cynwysyddion PET (plastig), gwydr a chaniau yn ystod cyfnod yr adolygiad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Ymddygiadau ailgylchu presennol

Cafwyd bod ailgylchu cynwysyddion diodydd alcoholaidd yn arfer sefydledig i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol. Nododd naw ym mhob deg (87%) o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn ailgylchu eu holl gynwysyddion drwy ailgylchu wrth ochr y ffordd ac roedd 9% ychwanegol yn gwneud hynny'n rhannol. Hefyd roedd y rhan fwyaf o'r diodydd alcoholaidd a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr yn cael eu hyfed yn y cartref (88%).

Fodd bynnag, cafwyd bod tuedd is o lawer i ailgylchu cynwysyddion diodydd pan yfir diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref, ac roedd llai na hanner (42%) y rheini a gymerodd ran yn yr arolwg yn dweud eu bod bob amser yn dod â chynwysyddion adref i'w hailgylchu.

Oedolion iau (18-34 oed) sy'n lleiaf tebygol o ailgylchu yn y cartref (78%) a'r tu allan i'r cartref (30%) ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o yfed diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref nag yr oedd grwpiau oedran hŷn.

## Ymwybyddiaeth o'r CDE ac Agweddau Meddwl tuag ato

Ymysg ymatebwyr yr arolwg, roedd 37% yn ymwybodol o'r CDE. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng is-grwpiau. Rhai dan 35 oed oedd yn lleiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r cynllun (27%, o gymharu â 46% ar gyfer y rheini dros 55 oed), tra oedd yfwyr a niweidir hefyd yn ychydig yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r CDE (42%, o gymharu â 36% o yfwyr cymedrol).

Y rhesymau a roddwyd amlaf yn ddigymell dros deimlo'n gadarnhaol am y CDE oedd y byddai'n hybu ailgylchu (47%), y byddai'n helpu'r amgylchedd yn gyffredinol (14%), ac atal sbwriela (14%). Yn gyffredinol, 'er mwyn cael yr ernes yn ôl' oedd y prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr dros ddweud y byddent yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

dychwelyd cynwysyddion (y prif sbardun dros gymryd rhan).

O blith y rheini a deimlai'n niwtral neu'n negyddol tuag at y CDE, y prif resymau a roddwyd oedd eu bod eisoes yn ailgylchu cynwysyddion (22%), y byddai'n achosi trafferth (17%), y gost ychwanegol yn y man prynu (13%), a'i bod yn well ganddynt cael arian parod yn hytrach na thalebau wrth ddychwelyd cynwysyddion (8%).

Tystiolaeth o'r mathau o effeithiau dichonol a geir ar ymddygiadau drwy gyflwyno'r CDE

Mae'r ymchwil yn awgrymu y byddai lleiafrif o ddefnyddwyr sy'n prynu cwrw neu seidr yn gallu newid i brynu mathau o alcohol cryfach (yn rhannol neu'n llwyr) wrth gyflwyno CDE, gyda llai na 10% o yfwyr cwrw neu seidr yn yr ymchwil feintiol yn nodi y byddent yn gwneud hynny. Roedd hyn yn wir hefyd am yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl, ac am y rheini ar incwm is yng nghyd-destun yr holl yfwyr (dim gwahaniaethau arwyddocaol). Er hynny, roedd y gyfran yn fwy ar gyfer yfwyr a niweidir neu yfwyr mewn perygl a oedd hefyd ar incwm is yn achos CDE 30c, o gymharu ag yfwyr cymedrol (ar unrhyw lefel incwm) e.e. 14% o gymharu â 7% ar gyfer seidr (gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol). Ar lefel ernes o 30c, roedd yfwyr seidr 18-34 oed a ymatebodd i'r arolwg hefyd yn fwy tebygol o gredu y byddent yn newid i fath cryfach o alcohol mewn fformat sengl yn lle seidr (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), sef 14% o rai 18–34 blwydd oed o gymharu â 7% o rai 35–54 blwydd oed (gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol). Felly hefyd yr oedd yfwyr seidr benywaidd o gymharu ag yfwyr seidr gwrywaidd yn y sampl (14% o gymharu â 4%, gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol).

Roedd yr ymchwil wedi canfod nifer o resymau allweddol dros gymryd mai dim ond lleiafrif o ddefnyddwyr sy'n prynu cwrw neu seidr a fyddai'n newid i brynu mathau cryfach o alcohol (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) wrth gyflwyno CDE:

- Bod hoff fath o ddiod alcoholaidd gan oddeutu pedwar ym mhob pump (82%) o ymatebwyr yr arolwg a'u bod yn ei hyfed yn amlach na diodydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

eraill, fel y byddai newid i fath arall wrth gyflwyno'r CDE yn galw am newid ychwanegol yn eu harferion. Roedd yr ymchwil ansoddol hefyd yn dangos bod ymlyniad emosiynol cryf wrth hoff fathau o ddiod. Roedd graddau'r hoffter o un math o ddiod yn fwy ymysg yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir nag ymhlith yfwyr cymedrol (85% a 87%, yn y drefn honno, o gymharu â 79%). Yn achos yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir sy'n yfed cwrw o leiaf 3 i 4 gwaith yr wythnos, roedd y ffafriaeth hon yn codi i 90%.
- Bod mathau o ddiod alcoholaidd yn cael eu cysylltu ag achlysuron penodol (e.e., yfed cwrw wrth wylio gêm bêl-droed neu yfed gwin gyda phryd o fwyd). Byddai newid mathau o alcohol ar gyfer achlysuron sydd â chysylltiadau cryf â nhw yn galw eto am newid normau presennol.
- Wrth siopa am alcohol, yr ymddygiad a geir amlaf ar hyn o bryd yw siopa o fewn mathau o alcohol yn hytrach na rhyngddynt.

Ategir y casgliad hwn gan y ffaith nad oedd yr adolygiad llenyddiaeth wedi canfod tystiolaeth o effeithiau anfwriadol sylweddol mewn perthynas ag yfed alcohol, er bod nifer o CDEau ar waith o gwmpas y byd.

Fodd bynnag, roedd yr ymchwil yn dangos mai ymysg rhai 18–34 blwydd oed roedd y duedd isaf i ailgylchu ar hyn o bryd ac mai ymhlith y rhain hefyd yr oedd y bwriad lleiaf i ddychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE. Roedd hyn yn neilltuol o wir lle'r oedd alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr yn cael ei yfed y tu allan i'r cartref. Os na fydd ernesau'n cael eu hawlio'n ôl, gellid cael mwy o risg ddichonol yn y grŵp oedran hwn o newid o fathau alcohol llai cryf mewn aml-becynnau i ddiodydd cryfach.

Argymhellion am gamau y gellid eu cymryd i hwyluso'r gallu i ddychwelyd cynwysyddion

Roedd yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir wedi mynegi pryder y gallai pobl eu beirniadu ar sail nifer y cynwysyddion diodydd a ddychwelir (35% a 43%, yn y drefn honno). Drwy ddarparu peiriannau a oedd yn cynnig modd i adael cynwysyddion yn ddisylw, gellid cymell y grŵp hwn i ddychwelyd cynwysyddion.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Gyda golwg ar gasglu ernesau wrth ddychwelyd cynwysyddion, roedd mwy o blaid cael arian parod nag a oedd o blaid cael talebau (arian mewn llaw neu arian yn ôl ar gerdyn), yn rhannol oherwydd pryder am dalebau'n mynd ar goll neu'n mynd heibio i ddyddiad dod i ben, etc. Mae'n bosibl y byddai talebau digidol yn helpu rhai i deimlo'n fwy hyderus na fyddai arian yn cael ei golli'n ddamweiniol.

Roedd yr angen i neilltuo amser i ddychwelyd cynwysyddion yn cael ei weld yn rhwystr pendant gan oedolion sydd â phlant a'r rheini sy'n 18-34 blwydd oed. Pan holwyd yn benodol am hynny, dywedodd hanner (51%) y rhai 18-34 blwydd oed y byddai diffyg amser yn ei gwneud yn anodd dychwelyd cynwysyddion yn rhan o'u bywyd pob dydd, fel a wnaeth 44% o rieni i blant dan 18 oed. Byddai cyfathrebu ynghylch y gallu i ddychwelyd cynwysyddion yn rhwydd ac yn gyflym, ynghyd â nifer helaeth o fannau dychwelyd (fel na fydd pobl yn teimlo bod angen iddynt fynd o'u ffordd) yn gallu lleddfu'r pryder hwn. Hefyd bydd sicrhau bod y mannau dychwelyd yn weithredol yn ystyriaeth bwysig.

Roedd cysylltiad clir rhwng bod â barn negyddol am y CDE a bod â chwestiynau heb eu hateb am y cynllun. O'r rheini a oedd wedi ymateb yn negyddol i'r cynllun ar y dechrau, roedd 60% a oedd â chwestiynau ynghylch sut byddai'n gweithio neu'n meddwl ei fod yn ddyrys, o gymharu â 36% o'r rheini a oedd â barn gadarnhaol amdano. Mae hyn yn awgrymu y bydd yn bwysig cael cyfathrebu clir a chynhwysfawr er mwyn cymell yfwyr i deimlo'n gadarnhaol am y cynllun, ac felly i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan.

Roedd nifer a lleoliad y mannau dychwelyd yn un o'r prif bryderon ymysg cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol, a hynny'n amlygu pwysigrwydd lleoliad y mannau dychwelyd o ran hwyluso'r gallu i ddychwelyd cynwysyddion. Bydd yn neilltuol o bwysig cael mannau dychwelyd gweithredol mewn llawer man mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref lle yfir alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr, gan fod cyfraddau ailgylchu y tu allan i'r cartref yn is o lawer ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, roedd yr angen i gario cynwysyddion diodydd gwag, budr oddi allan i'r cartref hefyd wedi cael ei nodi'n brif rwystr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

mewn perthynas â dychwelyd cynwysyddion (31%).

## Argymhellion ar gyfer ymchwil bellach

Rydym yn argymell y dylid monitro ymddygiadau gwirioneddol ar ôl rhoi'r cynllun ar waith. Drwy wneud hyn oddeutu blwyddyn ar ôl ei gyflwyno, byddai defnyddwyr wedi cael amser i addasu i'r cynllun newydd a byddai digon o ddata am gategorïau wedi cael eu casglu er mwyn cynnal dadansoddiad ystyrlon. Rydym yn argymell defnyddio data am gategorïau (data EPOS neu ddata gwerthiant paneli siopwyr) ynghyd ag ymchwil ansoddol a meintiol ychwanegol ymysg defnyddwyr.

Ar gyfer yr ymchwil ansoddol a meintiol, rydym yn awgrymu defnyddio sampl sydd â strwythur tebyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil hon, ond gyda'r posibilrwydd o gynnwys ychwanegiad pellach o rai 18-34 blwydd oed, gan mai'r grŵp hwn oedd yr un lle nodwyd y bwriad dichonol isaf i gymryd rhan yn y CDE.

Er mwyn ategu ymchwil ymhlith defnyddwyr, gellid ystyried cynnal ymchwil ansoddol hefyd ymhlith gweithredwyr y cynllun (e.e. manwerthwyr), er mwyn canfod a oes unrhyw anawsterau wrth ei weithredu o'u safbwynt nhw.

## Manylion cyswllt

Awduron yr adroddiad: Clair Prior a Duncan Macaskill, Levercliff Associates

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

E-bost: **ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru)

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 79/2024
ISBN digidol 978-1-83625-803-2

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/effaith-y-cynllun-dychwelyd-ernes-ar-ymddygiadau-prynu-alcohol-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).